# Marchogaeth ceffylau â lefelau ffitrwydd gwahanol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys marchogaeth ceffylau â lefelau ffitrwydd gwahanol er mwyn eu hymarfer. Bydd hyn yn cynnwys marchogaeth ceffylau â rhaglenni ymarfer gwahanol yn effeithiol, mewn ffordd reoledig, a monitro cynnydd y ceffyl.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. dewis a gosod harneisiau i fodloni gofynion unigol
3. marchogaeth ceffylau er mwyn eu hymarfer, mewn ffordd reoledig, sy'n briodol i'r ardal waith a'r amodau
4. ystyried lefelau ffitrwydd gwahanol y ceffylau
5. ymarfer ceffylau yn unol â'r rhaglen ymarfer
6. monitro cynnydd ceffylau yn erbyn y rhaglen ymarfer a hysbysu'r person priodol
7. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd
8. dilyn Rheolau'r Ffordd Fawr a'r gweithdrefnau ar gyfer marchogaeth ar y ffordd, gan addasu osgo a chyflymder yn unol â'r amodau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. ymddygiad ceffylau yn ystod cyfnodau gwahanol hyfforddiant a lefelau ffitrwydd
3. y rhesymau dros fonitro perfformiad y ceffyl
4. effeithiau ymarfer ar y ceffyl
5. pwysigrwydd mabwysiadu'r safle marchogaeth priodol ar gyfer y math o ymarfer
6. adwaith ceffylau o dan amgylchiadau ac amodau gwahanol
7. y peryglon yr ydych yn debygol o ddod ar eu traws wrth farchogaeth ar y ffordd
8. sut i farchogaeth y ceffyl ar y ffordd yn ddiogel, yn enwedig wrth gyffyrdd
9. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
10. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Marchogaeth mewn ffordd reoledig yn yr amodau canlynol:

- cyflwr arwyneb
- presenoldeb ceffylau eraill
- presenoldeb pobl eraill
- tywydd gwahanol (yn cynnwys tywydd gwael)

Marchogaeth yn y sefyllfaoedd hyn:

- yn unigol
- mewn grwpiau
- cerdded, trotian a hanner carlamu
- mewn mannau agored
- ar y ffordd

Marchogaeth o leiaf dau o'r mathau canlynol o geffylau:

- ffit
- hanner ffit
- ddim yn ffit

Marchogaeth mwy nag un ceffyl i'w hymarfer ar gyfer disgyblaeth benodol; dylai'r ceffylau fod â lefelau ffitrwydd amrywiol.

## Geirfa

Amodau:

- arwyneb y ffordd
- tywydd
- marchogion eraill
- defnyddwyr eraill y ffordd

Marchogaeth ceffylau â lefelau ffitrwydd gwahanol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq325 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; ymarfer; ffitrwydd |